



Department for
Digital, Culture,
Media & Sport



UK CITY OF CULTURE

Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025

Datganiad o Ddiddordeb: canllawiau i gynigwyr

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog	2
Cyflwyniad	3
Canllawiau	4
Nodau ac amcanion Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig	4
Beth a olygwn wrth sôn am ddiwylliant?	6
Pa lefydd all wneud cais?	6
Pa sefydliadau all wneud cais?	7
Teitl, nod masnach a brand ‘Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025’	7
Y cyfryngau a chyhoeddusrwydd	7
Rhannu data a thryloywder	8
Cyllid	8
Dysgu gwersi gan Ddinasoedd Diwylliant blaenorol y Deyrnas Unedig	9
Cyfrannu at ein hamcanion amgylcheddol a Sero Net	10
Cysondeb â mentrau eraill y llywodraeth	10
Y broses ymgeisio a dethol	11
Sut i ymgeisio	12
Amserlen gryno	12
Meini prawf asesu	13
Cwestiynau datgan diddordeb	14
Panel cynghori arbenigol	19

Rhagair y Gweinidog

Ers tro byd, mae Coventry wedi cael ei hadnabod fel symbol o ail-enedigaethau - dinas a ailadeiladodd o rwbel yr Ail Ryfel Byd. Eleni, wrth i'r genedl ddod ati ei hun ar ôl y pandemig, bydd yn cael ei hail-eni eto wrth iddi ymgymryd â theitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2021. Bydd y foment agoriadol – 'Symudiadau' ar hyd a lled y ddinas – yn gychwyn blwyddyn o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol gwych gyda chymunedau wrth galon y cyfan, gan ddangos cyfnod o optimistiaeth ac adferiad ar gyfer y wlad gyfan. Disgwylir i flwyddyn Coventry fel Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig sbarduno hwb economaidd o £211 miliwn, gyda 2.5 miliwn yn ychwanegol o ymwelwyr â'r rhanbarth. Edrychaf ymlaen at fod yn un ohonynt wrth i mi ymuno â chynulleidfaoedd i ddathlu'r ddinas, ei thrigolion a'i lle ar lwyfan y byd.

Ers i Derry/Londonderry ennill y teitl yn 2013, mae rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig wedi dangos grym diwylliant a chreadigrwydd i drawsnewid cymunedau a lledaenu cyfleoedd ledled y Deyrnas Unedig. Roedd blwyddyn Hull yn cynnwys dros 2,800 o ddigwyddiadau, a chymerodd dros naw o bob deg o breswylwyr ran mewn o leiaf un gweithgaredd diwylliannol. Cyfrannodd dros 2,400 o wirfoddolwyr, o leiaf un o bob stryd unigol yn y ddinas, 337,000 awr o weithredu cymdeithasol yn ystod y flwyddyn – sy'n cyfateb i 38.5 o flynyddoedd.

Rwy'n falch iawn o lansio'r ymgyrch i chwilio am olynydd i Coventry. Mae'r gystadleuaeth am deitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 yn gyfle unigryw i chi archwilio a mynegi rôl diwylliant yn eich twf yn y dyfodol. Rwyf am i gynifer o lefydd â phosibl ar draws y Deyrnas Unedig fanteisio ar y cyfle hwn - a dyna pam rwy'n falch iawn o gyhoeddi y byddwn yn dyfarnu grantiau bach am y tro cyntaf i gynigwyr sydd wedi bod ar restr hir i gynorthwyo eu ceisiadau hir.

Rydyn ni'n gwybod bod diwylliant yn gwneud cyfraniad hollbwysig i'n bywydau ac i lle'r ydyn ni'n byw. Ond gall hefyd fod yn ysgogiad pwerus i adfer ac adnewyddu. Mae diwylliant yn gatalydd ar gyfer denu buddsoddiad a thwristiaid newydd a rhai sy'n dychwelyd, dod â phobl at ei gilydd, a diffinio a chadarnhau ymdeimlad o le a balchder lleol. Yn gryno, mae diwylliant yn rhan hanfodol o genhadaeth ganolog y llywodraeth hon: uno a lefelu'r wlad. Mae'r cyfleoedd hynny i'r cynigwyr ac enillydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 yn bwysicach nag erioed wrth i ni ailadeiladu ar ôl y pandemig. Am y rhesymau hyn, mae'n bleser gennyf hefyd gadarnhau y bydd Dinas Diwylliant yn awr yn dod yn gystadleuaeth bedair blynedd yn swyddogol, sy'n rhoi cyfle i hyd yn oed mwy o lefydd yn y dyfodol ennill y teitl pwysig hwn.

Hoffwn weld cynigion arloesol, cynhwysol a chyffrous sy'n arddangos eich diwylliant a'ch treftadaeth leol wych ac yn agor mynediad at ddiwylliant yn eich ardal, gan rymuso cymunedau i lywio lle maent yn byw yn 2025 a thu hwnt. Diolch i chi ymlaen llaw am eich diddordeb yn y gystadleuaeth hon.

Y Gwir Anrhydeddus Oliver Dowden CBE AS

Ysgrifennydd Gwladol, yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu cynhyrchu gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) i helpu'r dinasoedd, yr ardaloedd neu'r llefydd sy'n dymuno datgan eu diddordeb mewn gwneud cais am deitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025.

Mae Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn rhaglen ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, a ddatblygwyd ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cynhelir y gystadleuaeth gan y DCMS, ac mae'n gwahodd manau ledled y Deyrnas Unedig i gyflwyno eu gweledigaeth ar gyfer adfywio sy'n cael ei arwain gan ddiwylliant. Derry/Londonderry oedd Dinas Ddiwylliant gyntaf y Deyrnas Unedig yn 2013, ac mae'r gystadleuaeth wedi cael ei chynnal bob pedair blynedd ers hynny. Ochr yn ochr â lansio'r broses o chwilio am Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025, mae DCMS hefyd yn ymrwymo i gynnal cystadleuaeth ar gyfer teitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2029.

Mae cam newydd datgan diddordeb y gystadleuaeth eleni wedi ei gynllunio i fod yn **gam cyntaf ysgafnach** i ofyn i lefydd ddangos eu bod yn bodloni meini prawf craidd cais am fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig a bod ganddynt y potensial i wneud cyfraniad sylweddol at nodau ac amcanion y rhaglen.

Gall gwneud cais am y teitl yn ei rinwedd ei hun gael effaith gadarnhaol iawn ar le - gan helpu i ddod â phartneriaid at ei gilydd a datblygu arweinyddiaeth ddiwylliannol strategol, arddangos a gwella mynediad at eich treftadaeth, eich celfyddydau a'ch diwylliant lleol, a mynegi eich uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Rydym am i gynifer o lefydd â phosibl gael y cyfle i elwa. Dyna pam ein bod wedi cyflwyno'r cam datgan diddordeb, ac am y tro cyntaf, rydym yn falch iawn o allu dyfarnu grantiau bach i gynigwyr sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y cam datgan diddordeb i gynorthwyo a chryfhau eu cais llawn.

Bydd hyd at chwe lle sy'n cyflwyno datganiad o ddiddordeb yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o restr hir o lefydd sy'n ymgeisio. Bydd pob un yn cael grant bach i'w cynorthwyo i ddatblygu eu cais hir. Ar ôl asesu'r cais hir, bydd y panel cynghori arbenigol yn ymweld â'r tri lle sydd ar y rhestr fer ac yn eu gwahodd i gyflwyno eu cynllun. Bydd y panel wedyn yn cyflwyno ei argymhelliad ar gyfer enillydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 i weinidogion DCMS, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Dyddiadau allweddol

Dyddiad cau datgan diddordeb: 19 Gorffennaf 2021

Cyhoeddi rhestr hir: dechrau Medi 2021

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau hir: Ionawr 2022

Ymweld â llefydd sydd ar y rhestr fer: Mawrth/Ebrill 2022

Cyhoeddi'r enillydd: Mai 2022

Canllawiau

Nodau ac amcanion Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig

Mae Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn foment drawsnewidiol yn nhwf lle ac mae cystadleuaeth eleni yn gyfle i lefydd a chymunedau roi diwylliant a chreadigrwydd wrth galon eu cynlluniau adfer a thwf. Mae llwyddiant yr enillwyr blaenorol, sef Derry-Londonderry, Hull, a'r flwyddyn gyffrous ac uchelgeisiol sy'n datblygu yn Coventry, yn dangos sut gall y rhaglen yrru canlyniadau economaidd a chymdeithasol cadarnhaol, datblygu partneriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n para, a dod â phobl at ei gilydd. Gall hefyd gryfhau cymunedau, creu ymdeimlad o le ac ysbrydoli balchder lleol, dathlu a rhoi hwb i gelfyddydau a diwylliant lleol a llawr gwlad, a denu buddsoddiad a thwristiaeth newydd.

Mae cystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn rhan allweddol o ddarpariaeth ehangach y DCMS i roi mwy o gyfleoedd ledled y Deyrnas Unedig – gan ddefnyddio diwylliant fel catalydd ar gyfer buddsoddi mewn mannau i sbarduno twf economaidd ac adfywio, hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a meithrin balchder mewn llefydd a'u gwneud yn fwy deniadol i fyw a gweithio ynddynt ac i ymweld â nhw.

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer cam Datganiad o Ddiddordeb cystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 wedi cael eu datblygu i adlewyrchu'r nodau a'r amcanion isod.

Bydd angen i Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025:

1. Mynegi gweledigaeth sy'n defnyddio diwylliant i drawsnewid lle drwy adfywio cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, gan ei wneud yn fwy deniadol i fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo.
2. Sbarduno twf
 - Creu effaith economaidd gynaliadwy o'r rhaglen, drwy fuddsoddi ac arloesi mewn diwylliant a chreadigrwydd.
 - Datblygu partneriaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol parhaus a denu buddsoddiad i ddatgloi twf cynhwysol.
3. Arloesi
 - Dangos rhagoriaeth ac arloesi diwylliannol ac artistig, gan gynnwys defnyddio technoleg arloesol i arddangos a galluogi creadigrwydd ac ymgysylltiad diwylliannol i ffynnu ledled y Deyrnas Unedig.
 - Creu rhaglen ddiwylliannol sy'n dangos arferion gorau yn y Deyrnas Unedig ac sy'n dangos rhagoriaeth ddiwylliannol drwy'r diwydiannau celf, treftadaeth a chreadigol yn y Deyrnas Unedig.

- Datblygu partneriaethau traws-sector newydd, gan gynnwys archwilio cydweithrediadau rhwng gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg.

4. Estyn allan ar draws y Deyrnas Unedig a thramor

- Cynnwys a gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- Cryfhau a dathlu cysylltiadau a pherthnasoedd â llefydd ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig.
- Cyfrannu'n frwd at enw da'r Deyrnas Unedig yn fyd-eang am raglenni o ansawdd uchel, datblygiad artistig a chydweithio rhyngwladol.
- Gwella proffil yr ardal a'r Deyrnas Unedig i gynulleidfaoedd domestig a rhyngwladol fel lle i fyw, ymweld, gweithio neu fuddsoddi ynddo.
- Hyrwyddo'r ddinas fel cyrchfan ddiwylliannol, denu ymwelwyr newydd a rhai sy'n dychwelyd a hybu twristiaeth ar draws y rhanbarth, gan bwysleisio ei lle penodol yn y Deyrnas Unedig.
- Darparu rhaglen ddiwylliannol o ansawdd uchel sy'n datblygu ac yn ehangu ar gryfderau ac asedau lleol ac sydd hefyd yn arddangos cysylltiadau a nodweddion cyffredin gyda llefydd yn y Deyrnas Unedig a thramor.
- Meithrin arweinyddiaeth ac uchelgais yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol sy'n gystadleuol ar lefel fyd-eang.

5. Manteisio i'r eithaf ar fanteision cymdeithasol buddsoddi mewn diwylliant

- Grymuso cymunedau lleol i siapio'r cais a'r rhaglen, gan gyd-greu prosiectau a chynlluniau gwaddol gyda chymunedau lleol, artistiaid ar lawr gwlad a diwydiannau creadigol, ac arweinwyr rhanbarthol a lleol.
- Hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, ymgysylltu ac ysbrydoli cymunedau lleol i wirfoddoli.
- Cynyddu cyfleoedd cynhwysol ar gyfer datblygu sgiliau creadigol ac ar gyfer llwybrau at yrfaoedd creadigol a diwylliannol.
- Archwilio sut gall diwylliant gyfrannu at dargedau iechyd a llesiant.
- Dod â phobl at ei gilydd, creu ymdeimlad o le ac ysbrydoli balchder lleol.
- Datblygu arweinyddiaeth, llywodraethu a phartneriaethau sy'n seiliedig ar lefydd ac sy'n gynrychioliadol ac yn amrywiol.
- Datblygu ffyrdd arloesol o agor mynediad at ddiwylliant, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, ymwelwyr a chyfranogwyr.

6. Manteisio i'r eithaf ar y gwaddol, a meddu ar y gallu i gyflawni

- Cyflwyno cynlluniau realistig a chredadwy ar gyfer rheoli, cyllido a chyflawni'r rhaglen a'i gwaddol.
- Cryfhau arweinyddiaeth, partneriaethau a gallu lleol.
- Meithrin y gwaith o ddatblygu ecosystem gref o sefydliadau diwylliannol a chreadigol sydd â'u gwreiddiau yn y gymuned, gyda chysylltiadau â phartneriaid pwysig eraill a strategaeth ddiwylliannol hirdymor ar gyfer y ddinas.

- Dangos dull cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran manteisio i'r eithaf ar waddol a gwerthuso effeithiau Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig, gan gynnwys drwy gynyddu a gwella'r gwaith o gynhyrchu a chasglu data.

7. Gwreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol

- Datblygu cynlluniau realistig i wreiddio arferion cynaliadwy mewn rhaglenni creadigol ac ymarferol a gwaddol.
- Hyrwyddo ac ysbrydoli cyfrifoldeb amgylcheddol.

Beth a olygwn wrth sôn am ddiwylliant?

Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos cryfderau'r ddarpariaeth ddiwylliannol yn yr ardal, cydnabod ei gwendidau, a'i huchelgais a'i photensial i wella. Nid ydym am ragnodi beth yw diwylliant ac rydym yn annog pob cynigydd i ddiffinio ei ddiwylliant ei hun. Eich lle chi fydd cyflwyno'r achos dros ba weithgareddau sydd wedi eu cynnwys yn eich rhaglen ddiwylliannol arfaethedig a chyfleu'r newidiadau sylweddol y bwriadwch eu cyflawni. Rydym yn disgwyl i raglenni allu apelio at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a chynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol yn ogystal â chyfrannu at dwf economaidd, adfywio, cydlyniant cymunedol, iechyd a llesiant.

Anogir ymgeiswyr i gynnwys gweithgareddau sy'n cwmpasu diffiniad eang o ddiwylliant a'i ddiwydiannau creadigol. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): celfyddydau gweledol, llenyddiaeth; cerddoriaeth; theatr; dawn; celfyddydau cyfun; pensaernïaeth; crefftau; dylunio; treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol a naturiol; amgueddfeydd ac orielau; llyfrgelloedd ac archifau; ffilm, darlledu a'r cyfryngau; gemau fideo; animeiddio; effeithiau gweledol ac arbennig; ffotograffiaeth a chyhoeddi.

Pa lefydd all wneud cais?

Rydym yn croesawu ceisiadau o bob cwr o'r Deyrnas Unedig. Byddwn yn mabwysiadu dull hyblyg o gytuno pa ardaloedd all wneud cais. Nid oes gofyniad sylfaenol o ran poblogaeth ond rhaid cael ffocws a hunaniaeth ganolog glir i'r ardal, gyda digon o seilwaith diwylliannol a digidol (neu gynlluniau creadadwy i'w datblygu) i gyflwyno achos cryf, a darparu'r màs critigol er mwyn i raglen flwyddyn o hyd fod yn llwyddiannus. Gallai hyn fod yn ddinas neu'n dref fawr, neu'n ardal gydlynol sy'n cynnwys dwy neu ragor o ddinasoedd neu drefi cyfagos neu rai sydd â chysylltiad agos. Fodd bynnag, gellir cyflwyno rhan o'r rhaglen mewn cefnwlod ehangach, gan gynnwys ardaloedd gwledig, ac anogir cynigwyr i ystyried sut bydd eu strategaeth tymor hwy yn ymgysylltu ac o fudd i gymunedau cyfagos. Dylid gwireddu'r effaith hon yn yr ardal gyfagos, mewn ardaloedd trefol neu wledig, a fydd yn elwa ar dwf cynhwysol.

Rhaid i ardaloedd allu cyflwyno rhaglen sylweddol o weithgarwch diwylliannol i'w chynnal drwy gydol 2025 sy'n amlwg yn gallu arwain at adfywio yn yr ardal dan sylw. Yr unig ardaloedd sy'n cael eu hatal rhag ymgeisio yw Llundain yn ei chyfanrwydd neu unrhyw ran o Lundain. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal Llundain, rhannau o Lundain na sefydliadau yn Llundain rhag bod yn bartneriaid mewn cais yn enw ardal y tu allan i Lundain.

Pa sefydliadau all wneud cais?

Disgwyliwn i geisiadau ddod o bartneriaeth ar gyfer yr ardal a chynnwys yr awdurdodau lleol perthnasol. Bydd angen sefydliad arweiniol ar gyfer dibenion gwybodaeth a chyfathrebu yn ystod y broses gystadlu, ac os bydd yn llwyddiannus, bod yn gorff atebol ar gyfer unrhyw grant. Rhaid i ymgeiswyr arweiniol fod yn gorff â chyfansoddiad ffurfiol ond nid oes angen iddynt fod yn awdurdod lleol.

Dylai'r bartneriaeth ddangos ymrwymiad i weithio ar y cyd a chynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid o wahanol sectorau fel: busnesau lleol, arweinwyr diwydiant a dinesig, sefydliadau addysg uwch, cyrff diwylliannol, mudiadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol a bod yn gyson â chyrrff strategol rhanbarthol eraill.

Teitl, nod masnach a brand 'Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025'

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei ddynodi fel 'Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025'. Er y byddwn yn dyfarnu grantiau bach i ddinasoedd sydd ar y rhestr hir sydd wedi llwyddo yn y cam datgan diddordeb, nid yw'r teitl ei hun yn dod gyda chyllid awtomatig. Fodd bynnag, mae'r DCMS yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar lwyddiant ac effaith yr enillydd, a bydd yn darparu cyngor, cefnogaeth a phŵer ymgynnull. Mae hyn yn cynnwys meithrin cysylltiadau â thimau'r DCMS, adrannau eraill y llywodraeth, a chyrrff hyd braich a chyrrff eraill y llywodraeth. Bydd memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn cael ei sefydlu a fydd yn amlinellu'r bartneriaeth rhwng y DCMS a'r ddinas fuddugol.

Oherwydd COVID-19, bydd blwyddyn Coventry dan y chwyddwydr yn cael ei chynnal rhwng mis Mai 2021 a mis Mai 2022. Bydd seremoni drosglwyddo ar ddiwedd blwyddyn Coventry ym mis Mai 2022 a bydd yr ymgeisydd buddugol newydd yn gallu defnyddio teitl a nod masnach 'Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig' o fis Mai 2022 nes bydd yr enillydd nesaf yn ei hawlio ar ddiwedd blwyddyn deitl 2025. Fel arfer, mae gan y llefydd buddugol dair blynedd i baratoi ar gyfer eu blwyddyn gyntaf ac felly mae'n bosibl y bydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 yn dymuno cael yr hyblygrwydd i ddechrau ei rhaglen ddiwylliannol ar unrhyw adeg rhwng mis Ionawr a mis Mai 2025 a pharhau i 2026 yn unol â hynny.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau brandio i bob ymgeisydd cofrestredig i amlinellu sut mae lleoedd sy'n ymgeisio, sy'n ennill ac sy'n gadael gwaddol yn gallu defnyddio'r teitl a'r nod masnach yn y blynyddoedd sy'n arwain at 2025 ac ar ôl hynny.

Y cyfryngau a chyhoeddusrwydd

Rydym yn disgwyl y bydd cyhoeddusrwydd sylweddol yn gysylltiedig â'r broses ddethol, gyda sylw ar lefel leol a chenedlaethol. Byddwn yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ynghylch pwy sydd wedi cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ac ar ganlyniadau'r prosesau llunio rhestr hir, llunio rhestr fer a'r dewis terfynol. Bydd yr holl lefydd sy'n ymgeisio yn cael eu rhestru ar wefan y DCMS (gyda dolenni i wefan eu cynigion os oes rhai ar gael).

Rhannu data a thryloywder

Rydym am i broses cystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 fod mor dryloyw â phosibl ac rydym yn eich annog i feddwl am y modd rydych chi'n ymgynghori, yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â thrigolion drwy gydol y broses ymgeisio.

Mae rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig a'i gwerthusiad yn hanfodol i'n dealltwriaeth gynyddol o effeithiau cymdeithasol ac economaidd buddsoddi diwylliannol. Bob pedair blynedd, rydym yn derbyn swm anhygoel o wybodaeth a data. Ar ôl dyfarnu teitl 2025 y flwyddyn nesaf, byddwn yn adneuo pob cais (datganiadau cychwynol o ddiddordeb a cheisiadau hir) yn yr Archifau Gwladol, archif gyhoeddus swyddogol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, er mwyn rhoi mynediad rhydd i ymchwilwyr a'r cyhoedd at y cyfoeth hwn o fanylion. Rydym yn deall y gallai rhywfaint o ddata fod yn fasnachol sensitif, felly byddwn yn gweithio gyda phob cynigydd i ddarparu fersiynau wedi eu golygu yn ôl yr angen.

Rydym am i bob ymgeisydd elwa ar y broses, a gwyddom fod llawer o gynigwyr blaenorol wedi mynd ymlaen i wireddu elfennau o'u cynigion er iddynt fod yn aflwyddiannus yn y gystadleuaeth hon. Bydd y DCMS yn gweithio gydag ymgeiswyr aflwyddiannus, cyrff hyd braich DCMS a sefydliadau allweddol eraill sy'n ymwneud â rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig i nodi meysydd y gallwn eu cefnogi gyda'n gilydd.

Cyllid

Rydym yn sylweddoli bod costau ynghlwm wrth ddatblygu a chyflwyno cais a bod COVID-19 wedi rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau lleol. Rydym am i gynifer â phosibl o lefydd ledled y Deyrnas Unedig deimlo eu bod yn gallu gwneud cais a chael budd o'r broses ymgeisio. Mae'r broses ei hun yn ymarfer gwerthfawr o ran diffinio uchelgais lle, datblygu syniadau a phartneriaethau a phennu strategaeth ddiwylliannol integredig.

Mae'r cam Datganiad o Ddiddordeb ysgafnach, sy'n gyfyngedig o ran nifer geiriau, wedi ei gynllunio i sicrhau bod modd cadw costau mor isel â phosibl ar y dechrau. Am y tro cyntaf, byddwn yn dyfarnu grantiau bach o £40,000 i hyd at chwe chais sy'n gallu dangos yn ystod y cam Datganiad o Ddiddordeb eu bod yn bodloni'r meini prawf craidd a'u bod yn dangos potensial i wneud cyfraniad sylweddol at nodau ac amcanion rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig. Bydd y llefydd sy'n llwyddo i gael lle ar y rhestr hir yn cael 4 mis wedyn i ddatblygu dadansoddiad economaidd cadarn, cynllun cyflawni a llywodraethu credadwy, yn enwedig ar gyfer cynlluniau prosiect cyfalaf, gwneud gwaith ymchwil ac ymgynghori, a chasglu data. Dylid gallu graddio'r ceisiadau hir er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r elfennau a gwireddu'r effeithiau i ryw raddau, ni waeth pa mor llwyddiannus yw'r cais yn y gystadleuaeth hon. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o ganllawiau ar sut i baratoi'r cais hir maes o law, gan gynnwys ein disgwyliadau o ran cyflwyno data.

Bydd y ffurflen datgan diddordeb yn gofyn i chi sut byddech chi'n gwario'r £40,000 o grant. Y bwriad yw darparu ffynhonnell hyblyg o gyllid y gellir ei defnyddio mewn ffordd sy'n benodol i le, a fydd yn amlwg yn cryfhau eich cais hir ac yn helpu i ddatblygu cynllun graddadwy, er enghraifft, ar:

- Ymchwil a Datblygu
- Ymgynghori
- Adnoddau dynol
- Casglu data
- Arbenigedd masnachol ar gyfer cynlluniau cyfalaf.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu gwarantu cyllid cenedlaethol awtomatig ('gwobr ariannol') gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y cais buddugol. Yn hytrach, rydym yn disgwyl y bydd angen i'r lle llwyddiannus wneud cais am arian o gronfeydd sy'n bodoli'n barod. Rydym yn cydnabod y gall hyn siapio'r ceisiadau, ac y bydd angen mynd ati fesul cam o bosibl i roi'r rhaglen ar waith, yn dibynnu ar ymgyrch codi arian lwyddiannus. Byddem yn disgwyl i chi gysoni eich adnoddau a'ch cyllidebau lleol eich hun i gyflawni eich rhaglen, a bydd angen i chi ystyried sut i wneud y defnydd gorau o ffynonellau cyllid posibl eraill.

Dysgu gwersi gan Ddinasoedd Diwylliant blaenorol y Deyrnas Unedig

Datblygwyd rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig mewn ymgynghoriad â'r gweinyddiaethau datganoledig i adeiladu ar lwyddiant Lerpwl fel Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008. Ers hynny, teimlwyd ei effaith gadarnhaol yn Derry-Londonderry, Hull, a Coventry erbyn hyn. Mae llawer o lefydd eraill wedi bod yn rhan o'r gystadleuaeth hon, ac mewn mentrau eraill, fel Lerpwl, yn sgil bod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008, cystadleuaeth Bwrdeistref Diwylliant Llundain a'r cynllun Bwrdeistref Diwylliant ar batrwm mwy cylchol ledled Rhanbarth Dinas Lerpwl. Mae'r sefydliadau a'r unigolion sy'n cefnogi rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig wedi nodi eu parodrwydd i gefnogi'r broses ymgeisio, ond bydd angen iddynt weithredu mewn ffordd deg, ac ni fyddant yn gallu gwneud ymrwymiad cadarn na chyfyngedig i unrhyw ddinas neu ardal. Gallwch ddisgwyl cael cyngor cyson a strategol gan y sefydliadau hyn.

Rydym yn gweithio gyda Coventry i gynnull pawb sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn paratoi cynigion, trefnu a sbarduno newid sy'n cael ei arwain gan ddiwylliant dros y degawd diwethaf er mwyn rhannu eu gwybodaeth a'u cyngor. Cynhelir dau weithdy drwy gydol y broses paratoi cynigion, un i bob ymgeisydd sydd â diddordeb ar 1 a 2 Gorffennaf a'r ail ar gyfer y cynigwyr sydd ar y rhestr hir yn hydref 2021. Manylion i ddilyn. Mae'n bosibl y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn dod i Uwchgynhadledd Polisi a Gwerthuso Diwylliannol Coventry, a gynhelir ar-lein ar 24-25 Mehefin ac a gynhelir gan [Rwydwaith Dinasoedd Diwylliant yr AHRC](#) mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Dinas Diwylliant Coventry a phrifysgolion Warwick, Coventry a Hull. Mae'r rhaglen lawn ar gael [yma](#). [Dolen](#) i gofrestru os oes diddordeb.

Cyfrannu at ein hamcanion amgylcheddol a Sero Net

Mae uchelgeisiau Sero Net y llywodraeth hon yn cynrychioli colofn allweddol yn ein hymrwymiad i ailgodi'n gryfach. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau'r math o dwf sy'n lefelu, yn lleihau allyriadau, ac yn cadarnhau ein statws fel Prydain Fyd-eang.

Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yw un o ymdrechion mwyaf taer ein hoes ni, sy'n galw am weithredu beiddgar gan bob un ohonom. Mae ein trefi a'n dinasoedd ar flaen y gad o ran newid yn yr hinsawdd ac mae diwylliant yn arf pwerus i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol. Dylai ceisiadau am Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 allu dangos cyfraniad at amcanion sero net neu ystyriaethau amgylcheddol ehangach. Dylai rhaglenni fod yn seiliedig ar arferion gorau carbon isel neu ddi-garbon, mabwysiadu a chefnogi technoleg lân arloesol lle bo'n bosibl a chefnogi'r cadwyni cyflenwi a sgiliau sy'n tyfu i gefnogi Sero Net lle bo hynny'n bosibl.

Er mwyn cefnogi twf gwyrdd, dylai ceisiadau hefyd ystyried sut gall y rhaglen weithio gyda'r amgylchedd naturiol i gyflawni ei hamcanion, ac – ar y lleiaf – ystyried effaith y rhaglen ar asedau naturiol a natur ein gwlad.

Rydym am i bob ymgeisydd ar gyfer teitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 gysylltu polisi a strategaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol, a gwreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol yn eu cynlluniau - o ddigwyddiadau a thrafnidiaeth i raglennu creadigol a hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol. Mae Julie's Bicycle, un o bartneriaid Arts Council England, wedi cydweithio ar [amrywiaeth o adnoddau, adroddiadau ac astudiaethau achos](#) sy'n dangos dinasoedd ledled y byd yn dod yn fwy cynaliadwy gyda diwylliant yn sbardun iddynt.

Cysondeb â mentrau eraill y llywodraeth

Mae'r gystadleuaeth yn ategu mentrau eraill Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n seiliedig ar leoedd, fel [Cronfa Codi'r Gwastad](#), [Cronfa Adnewyddu Cymunedol y Deyrnas Unedig](#), yn ogystal â'r Rhaglenni ar gyfer Lloegr yn unig fel y [Gronfa Trefi](#) a'r Gronfa Datblygu Diwylliannol, i greu cyfleoedd ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig a helpu dinasoedd a'u hardaloedd cyfagos i ddatblygu'n well.

Rydym yn annog cynigwyr i ddangos sut mae eu cynnig yn cyd-fynd â chronfeydd a mentrau eraill, yn adeiladu arnynt neu'n paratoi ar eu cyfer, yn ogystal â sut mae'n cael ei integreiddio mewn cynlluniau twf cynhwysol lleol a rhanbarthol ehangach. Dylai cynigion fynd ati'n frwd i ategu, yn hytrach na dyblygu neu gystadlu â chyllid sydd eisoes yn cyflawni neu'n bwriadu cyflawni yn eu hardaloedd. Ni ddylai ardaloedd ystyried cystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig fel cyfle i gau unrhyw fwch mewn cyllid nas gwreiddir gan Gronfeydd eraill y llywodraeth. Ni ddylai lleoliadau ychwaith, pa un a wnaethant dderbyn cymorth drwy'r Cronfeydd eraill hyn ai peidio, deimlo eu bod dan anfantais wrth wneud cais am gystadleuaeth Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig.

Rydym eisiau cefnogi'r holl ymgeiswyr i wireddu cyfraniad diwylliant at adfer ac adnewyddu. Mae'r [Cynllun Adfer Ymholiadau am Ddinasoedd Diwylliannol](#) yn edrych ar yr effaith mae Compactau Diwylliannol wedi ei chael ac yn dangos manteision datblygu arweinyddiaeth strategol a gweithredu cydlynol.

Y broses ymgeisio a dethol

Bwriad y broses ddethol yw sicrhau bod y cais gorau posibl ledled y Deyrnas Unedig yn cael ei ddewis ar gyfer Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025. Dylai'r broses ddethol arwain at ddewis a dynodi ardal sydd â gweledigaeth uchelgeisiol ac unigryw o'r hyn y bydd yn ei gyflawni yn 2025 ac wedi hynny; ond hefyd un sydd â chynlluniau creadadwy a realistig i wireddu ei gweledigaeth.

Bydd y broses ei hun yn arwain at fanteision ehangach. Er mai dim ond un ardal fydd yn cael ei dynodi ar gyfer 2025, bydd y broses o ddatblygu'r cynigion yn meithrin syniadau a phartneriaethau a all, ac a fydd yn aml yn parhau, pa un a yw cais yn llwyddiannus ai peidio. Rydym yn eich annog i feddwl sut byddwch yn adeiladu ar y broses a pha elfennau o'ch cais y byddwch chi'n gallu bwrw ymlaen â nhw, hyd yn oed os na chewch chi eich dewis yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025.

Cam 1

1. Cofrestrwch fel ymgeisydd ar gyfer teitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 drwy e-bostio ukcityofculture2025-competition@dcms.gov.uk, gan roi manylion cyswllt tîm y cais a gwybodaeth sylfaenol am yr ardal mae'r cais yn ymwneud â hi. Bydd yr wybodaeth hon yn ein galluogi i gysylltu â chi'n gyflym os bydd angen, ac anfon y canllawiau brandio a gwybodaeth am y gweithdy at ddarpar gynigwyr.

Cam 2

2. Eleni, rydym yn gwahodd ymgeiswyr i gyflwyno ffurflen Datganiad o Ddiddordeb ar-lein gyda chyffyrddiad ysgafn i ddechrau.
3. Mae'r cyfnod Datganiad o Ddiddordeb yn gyfle, ar lefel uchel, i ddangos eich gallu i gyflawni meini prawf craidd cais i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig a dangos eich potensial i wneud cyfraniad sylweddol at nodau ac amcanion y rhaglen. Mae'r ffurflen Datganiad o Ddiddordeb yn gyfyngedig o ran geiriau. Nid ydym yn disgwyl data economaidd manwl, ymchwil, brandio elfennau gweledol na chynlluniau codi arian manwl na chynlluniau cyflawni manwl ar hyn o bryd.
4. Bydd panel cynghori arbenigol yn asesu'r Datganiadau o Ddiddordeb, yn eu sgorio yn erbyn y meini prawf yn Nhabl 1 isod ac yn argymhell rhestr hir o hyd at chwech o ymgeiswyr i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am benderfyniad. Ein nod yw cyhoeddi'r rhestr hir ym mis Medi 2021.

Cam 3

5. Bydd y llefydd a gaiff le ar y rhestr hir yn mynd ymlaen i'r ail gam ac yn cael grant o £40,000 yr un i gryfhau eu cais hir. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau ymgeisio'r rhestr hir yn yr haf.
6. Gofynnir i hyd at chwe lle lenwi cais hir, a fydd yn gofyn cwestiynau manylach ac yn gofyn am ddata sy'n ymwneud ag effaith gymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yn ogystal â chynllun darparu a chodi arian manwl a chredadwy, yn enwedig ar gyfer cynlluniau prosiect cyfalaf. Bydd gan ymgeiswyr hyd at bedwar mis i lenwi'r cais hir.
7. Bydd y panel yn asesu ceisiadau'r chwe lle sydd wedi cael lle ar y rhestr hir o ran yr un meini prawf craidd yn Nhabl 1 ac yn argymhell rhestr fer o dri lle i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar gyfer penderfyniad.

Cam 4

8. Bydd y panel yn ymweld â'r llefydd sydd ar y rhestr fer, a fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno i'r panel a chymryd rhan mewn trafodaethau manwl am eu cynlluniau.

Cam 5

9. Bydd y panel yn cyflwyno ei argymhelliad ar gyfer enillydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 i weinidogion y DCMS, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Byddwn yn rhoi adborth i bob un o'r chwe lle sydd ar y rhestr hir.
10. Bwriad y DCMS yw cyhoeddi Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025 ar ddiwedd rhaglen Coventry ym mis Mai 2022.

Sut i ymgeisio

E-bostiwch ukcityofculture2025-competition@dcms.gov.uk i gofrestru fel ymgeisydd am deitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig 2025. Cliciwch isod i lenwi'r ffurflen datgan diddordeb ar-lein. Y dyddiad cau ar gyfer llenwi'r Datganiad o Ddiddordeb yw 23:59 ar 19 Gorffennaf 2021.

Amserlen gryno

Cam	Dyddiadau
Datgan diddordeb	Lansio: 29 Mai 2021 Dyddiad cau: 19 Gorffennaf 2021
Gweithdy i gynigwyr	Dechrau Gorffennaf 2021
Rhestr hir	Cyhoeddi: Medi 2021 Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau hir: 10 Ionawr 2022
Rhestr fer	Cyhoeddi: Mawrth 2022 Disgwyl ymweliadau: Mawrth-Ebrill 2022
Cyhoeddi'r enillydd	Mai 2022

Meini prawf asesu

Bydd y panel cynghori arbenigol yn asesu'r datganiadau o ddiddordeb yn unol â'r meini prawf a nodir yn Nhabl 1. Mae'r meini prawf wedi cael eu datblygu ar sail nodau ac amcanion rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig uchod. Mae'r ystod sgoriau isod yn ganllaw i helpu gyda'r asesiad. Bydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a nodir yn eich ffurflen ar-lein a bydd yn cael ei hategu lle bo angen gan ymatebion i unrhyw gwestiwn esbonio a allai gael ei ofyn. Bydd y panel yn cyflwyno argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a fydd yn gwneud y penderfyniad ar bob cam. Bydd adborth yn cael ei roi i bob ymgais sy'n cyrraedd y rhestr hir.

Gellir crynhoi'r meini prawf craidd ar gyfer cais llwyddiannus i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig fel a ganlyn:

Tabl 1

Cymhwysedd: Ffocws canolog clir a hunaniaeth gydlynol i'r ardal, gyda digon o seilwaith diwylliannol, digidol a chymdeithasol (neu gynlluniau creadadwy i'w datblygu) i ddarparu'r màs critigol er mwyn i raglen flwyddyn o hyd fod yn llwyddiannus.

Creu lle: Gweledigaeth gref ac unigryw, sy'n dathlu treftadaeth ac yn defnyddio diwylliant i ddod â chymunedau at ei gilydd, creu ymdeimlad o le ac ysbrydoli balchder lleol.

Adferiad a thwf: Buddsoddi mewn diwylliant a chreadigrwydd i ysgogi adferiad ac adnewyddu ac i ddatgloi twf cynhwysol lleol parhaus.

Lefelu: Dylai cynigion ddangos yr angen am adfywio cymdeithasol ac economaidd a sut bydd bod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn ceisio mynd i'r afael â hyn, gan greu lle y mae pobl eisiau byw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddo.

Arloesi: Rhagoriaeth ac arloesi diwylliannol ac artistig, gan gynnwys defnyddio technoleg arloesol i arddangos, galluogi creadigrwydd a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Cydweithio yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol: Lle bo modd, dathlu'r cysylltiadau rhwng llefydd ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig yn ogystal â thramor, a mynd ar drywydd partneriaethau a chydweithrediadau newydd.

Partneriaeth: Partneriaeth rhwng llywodraeth leol, sefydliadau traws-sector ac unigolion sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at y cais, gan gynnwys ar draws gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg.

Ehangu mynediad a chyfranogiad mewn diwylliant: Arweinyddiaeth strategol, seiliedig ar lefydd, llywodraethu a phartneriaethau sy'n amrywiol ac yn grymuso cymunedau lleol i lunio'r cais a'r rhaglen. Datblygu ffyrdd arloesol o agor mynediad at ddiwylliant, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, ymwelwyr a chyfranogwyr.

Gwaddol: Cynllun uchelgeisiol a chredadwy i gynnal effaith y rhaglen ar ôl 2025.

Cynaliadwyedd: Cynlluniau realistig i wreiddio arferion amgylcheddol gynaliadwy mewn rhaglenni a gwaddol, dangos cyfraniad at amcanion sero net y Deyrnas Unedig, yn ogystal â gweithredu amgylcheddol sy'n ysbrydoli'r cyhoedd.

Tabl 2: Ystod sgoriau

Ystod sgoriau	Disgrifiad
Bodlonwyd (cryf) - 4	<i>Mae'r cais yn bodloni'r meini prawf ac yn dangos potensial i wneud cyfraniad sylweddol at y nodau a'r amcanion</i>
Bodlonwyd - 3	<i>Mae'r cais yn bodloni'r meini prawf</i>
Bodlonwyd yn rhannol - 2	<i>Dim ond rhai o'r meini prawf a fodlonir</i>
Posibl - 1	<i>Nid yw'r cais yn bodloni'r meini prawf ond mae'n dangos potensial i wneud hynny</i>
Heb ei fodloni - 0	<i>Nid yw'r cais yn bodloni'r meini prawf.</i>

Cwestiynau datgan diddordeb

Cwestiwn	Awgrymiadau ar gyfer meini prawf asesu
<p>Ble</p> <p>1. Disgrifiwch yr ardal ddaearyddol y mae'r cais yn ymwneud â hi</p> <p>[Uchafswm 400 gair]</p>	<ul style="list-style-type: none"> • A oes gan yr ardal hunaniaeth glir, neu botensial i sefydlu un? • A yw'r ardal a ddewiswyd yn bodloni'r gofynion a nodir yn adran 'Pa lefydd all ymgeisio' y canllawiau? • A yw'r ardal a ddewiswyd yn gydlynol, gyda ffocws canolog ac yn gredadwy fel lleoliad ar gyfer rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol sy'n para am flwyddyn?

<p>Pwy</p> <ol style="list-style-type: none"> 2. Pwy sy'n arwain eich cais? 3. Pwy arall sy'n ymwneud â datblygu a chefnogi'r cais? 4. Pa gamau a gymerir i ehangu'r amrywiaeth o ran arweinyddiaeth, llywodraethu a phartneriaethau? <p>[Dim mwy na 300 gair ar gyfer pob cwestiwn]</p> <p>[Bydd gan ymgeiswyr ddewis i lwytho i fyny llythyrau cefnogi]</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● A oes corff atebol dynodedig yn arwain y cais? ● A oes tystiolaeth glir bod amrywiaeth o sefydliadau ac unigolion traws-sector yn cefnogi'r cais ac yn cyfrannu ato, gan gynnwys yr awdurdod lleol? ● Sut bydd y cais yn sicrhau ei fod yn cynrychioli trigolion yr ardal? ● Pa rôl fydd gan y gymuned a'r trydydd sector o ran llunio a chyflwyno'r rhaglen ar gyfer eu hardal? ● A yw'r cais yn cyd-fynd â'r strategaethau twf neu ddiwylliant presennol ar gyfer yr ardal? ● A yw'n glir sut bydd y cais yn agor mynediad drwy sicrhau amrywiaeth o ran arweinyddiaeth, llywodraethu a phartneriaethau?
<p>Pam</p> <ol style="list-style-type: none"> 5. Pam ydych chi eisiau cystadlu am deitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig? <p>[Uchafswm 500 gair]</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● A yw'r weledigaeth yn wahanol ac wedi ei chysylltu'n glir â threftadaeth, natur a chymeriad yr ardal? ● A yw'r weledigaeth yn cwmpasu uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol tymor hwy y tu hwnt i 2025?
<p>Beth</p> <ol style="list-style-type: none"> 6. Beth yw prif themâu ac elfennau eich rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig? 7. Pa sefydliadau, rhwydweithiau a phartneriaethau diwylliannol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol fydd yn ymwneud â chyflwyno eich rhaglen? 	<ul style="list-style-type: none"> ● A yw'r themâu a'r elfennau'n darparu digon o le ar gyfer rhaglen amrywiol sy'n apelio'n eang at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd? ● Beth sy'n wahanol am y cynlluniau? ● Sut maent yn dangos arloesi, gan gynnwys defnyddio technoleg arloesol, a rhagoriaeth ddiwylliannol ar draws amrywiaeth o ffurfiau celfyddydol, diwydiannau creadigol a gweithgareddau diwylliannol?

<p>8. Pa artistiaid ac ymarferwyr diwylliannol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol fydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn eich rhaglen?</p> <p>9. Disgrifiwch eich cynlluniau i wreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol yn eich gweithgareddau.</p> <p>[Dim mwy na 500 gair ar gyfer pob cwestiwn]</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● A oes cynlluniau i hyrwyddo rôl diwylliant ar lefel genedlaethol a chyflwyno adegau o sylw cenedlaethol, gan gysylltu dinasyddion a chynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig? ● A yw'r cais wedi nodi cysylltiadau â llefydd ar draws y pedair gwlad, ac a oes cynllun credadwy ar gyfer eu dathlu a'u cryfhau? ● A oes amrywiaeth o bartneriaethau traws-sector wedi cael eu nodi, gan gynnwys ar draws gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg? ● Pa mor realistig ac effeithiol yw cynlluniau i wreiddio a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol yn y rhaglen? ● A oes cynlluniau i sicrhau cydbwysedd da rhwng partneriaid allanol a lleol, gan gynnwys partneriaid artistig ar lawr gwlad? ● A yw'r cais yn cynnwys cynlluniau ar gyfer rhaglen wirfoddoli?
<p>Effaith</p> <p>10. Ar lefel uchel, pa newidiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y bydd Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn eich helpu i'w cyflawni yn eich ardal?</p> <p>[Uchafswm 1800 gair]</p> <p>Nid ydym yn disgwyl manylder ar hyn o bryd. Yn y cais hir, cewch gyfle i fynd i fwy o fanylder, cyflwyno ymchwil a bydd gofyn i chi gyflwyno eich data sylfaenol a rhagamcaniadau ar gyfer effaith gymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● A yw'r cais yn dangos pam mae angen teitl Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig ar yr ardal a sut gallai elwa ar gael y teitl? ● A yw'r economi ddiwylliannol a chreadigol bresennol yn yr ardal yn darparu sylfaen ddigonol ar gyfer adeiladu arni? ● A yw'r cais yn defnyddio'r cyfle hwn i roi diwylliant wrth galon eu hadferiad economaidd a chymdeithasol yn y tymor canolig i'r tymor hir yn sgil COVID-19? ● A yw'n glir sut bydd diwylliant yn cyfrannu at dwf economaidd cyffredinol yr ardal yn ystod y flwyddyn a thu hwnt? Er enghraifft: ysgogi'r galw am dwristiaeth; mwy o gyfleoedd ar gyfer arbrofi ac arloesi; cyfnewid sgiliau; creu cyfleoedd ar gyfer rhaglenni sgiliau strategol a thalent leol; twf drwy ryngweithio â sectorau eraill fel lletygarwch; creu a diogelu swyddi; twf mewn busnesau creadigol.

	<ul style="list-style-type: none"> ● A oes enghreifftiau o'r effaith gadarnhaol y byddai Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn ei chael ar y sectorau diwylliannol a chreadigol? Er enghraifft, ar gryfder ac amrywiaeth arweinyddiaeth seiliedig ar lefydd; mwy o fuddsoddiad preifat, gan gynnwys buddsoddwyr cymdeithasol, yn y sectorau creadigol a diwylliannol; gwell rhwydweithiau cydweithredol o sefydliadau; datblygu doniau creadigol. ● A oes cynlluniau i ddatblygu ffyrdd arloesol o agor mynediad at ddiwylliant, gan ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gynulleidfaedd, ymwelwyr a chyfranogwyr? ● Sut bydd grym diwylliant a chreadigrwydd yn cael ei harneisio i arwain at newid cymdeithasol parhaol? Er enghraifft, a fydd cynlluniau'n gwneud lle'n fwy deniadol ac yn gwella ei adeiladwaith ffisegol; yn cynyddu cydlyniant cymdeithasol a chymunedol; balchder/bodlonrwydd mewn ardal; neu weithgarwch dinesig ac ymgysylltu diwylliannol? ● Sut bydd diwylliant yn cyfrannu at dargedau amgylcheddol, iechyd a llesiant y lle a'r ardal gyfagos? ● A yw'r cais yn adeiladu ar record lwyddiannus o lwyddo i ddefnyddio diwylliant i gyflawni adfywio, cydlyniant cymunedol, iechyd a llesiant? ● A yw'r effaith ddisgwyliedig yn gredadwy ac yn gyraeddadwy? (Er enghraifft, a oes tystiolaeth neu theori o newid i'w gefnogi?)
--	--

<p>Gwaddol</p> <p>11. Beth yw eich dyheadau ar gyfer y dyfodol a sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer yr effaith honno ar y gwaddol?</p> <p>12. Sut byddwch chi'n mesur ac yn gwerthuso effaith y rhaglen?</p> <p>[Dim mwy na 400 gair ar gyfer pob cwestiwn]</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Pa dystiolaeth allwch chi ei darparu i ddangos dealltwriaeth glir o lle'r rydych chi arni, lle'r ydych chi'n bwriadu bod yn 2026 ac ymrwymiad bod gennych chi a'ch partneriaid gynlluniau clir i ymrwymo adnoddau nid yn unig i gynnal ond hefyd i ymateb i'r twf diwylliannol sy'n debygol o ddeillio o'ch cyfnod fel Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig yn y blynyddoedd dilynol? ● A yw'r cynlluniau a'r disgwyliadau ar gyfer y dyfodol yn uchelgeisiol, yn gredadwy ac yn realistig? ● A nodir cyllideb werthuso resymol ac a oes cynllun monitro a gwerthuso lefel uchel? ● A oes cynlluniau amserol i sefydlu tîm i ddatblygu a chyflawni strategaeth y gwaddol?
<p>Parodrwydd i ddod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig</p> <p>13. A yw eich cais i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig wedi ei gynnwys mewn unrhyw strategaeth leol neu ranbarthol?</p> <p>14. Oes gennych chi'r gallu i fod yn Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig?</p> <p>15. Beth yw eich prif risgiau a mesurau lliniaru?</p> <p>[Dim mwy na 400 gair ar gyfer pob cwestiwn]</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● A yw'r cais wedi ei integreiddio mewn cynlluniau twf lleol? ● A yw'r cais yn amlinellu sut mae'r gweithgarwch arfaethedig yn cydfynd â chynlluniau a chronfeydd eraill y llywodraeth sy'n canolbwyntio ar greu lleoedd? ● A oes sector diwylliannol sydd wedi ei gysylltu'n dda, partneriaethau sy'n bodoli'n barod ac arweinyddiaeth glir? Neu gynlluniau i wella? ● A yw'r seilwaith digidol yn ei le neu'n cael ei ddatblygu i wireddu uchelgeisiau? ● A oes cynlluniau i sefydlu tîm yn gyflym i baratoi a chyflawni'r strategaeth? ● A oes trefniadau llywodraethu a rheoli prosiect clir? ● A yw'r broses ar gyfer datblygu'r rhaglen wedi ei hystyried yn glir? ● A nodwyd y risgiau allweddol? ● A yw'r mesurau lliniaru arfaethedig yn realistig ac yn gredadwy?

<p>Cyllid a Chyllideb Nid ydym yn disgwyl lefel uchel o fanylion ond rydym yn croesawu syniad o'r costau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch:</p> <p>Cynnig: 16. Sut byddech chi'n gwario'r cyllid sbarduno petaech chi'n cael lle ar y rhestr hir?</p> <p>Rhaglen: 17. Faint ydych chi'n disgwyl y bydd yn ei gostio i gyflawni eich rhaglen arfaethedig? 18. O ble rydych chi'n disgwyl cael cyllid ychwanegol a faint ydych chi'n disgwyl ei godi o bob ffynhonnell (e.e. cyrff cyhoeddus, nawdd a rhoddion unigol a chorfforaethol, refeniw gwerthiant ar gyfer digwyddiadau)?</p> <p>[Bydd gan ymgeiswyr y dewis i lwytho taenlenni i fyny]</p> <p>[Dim mwy na 400 gair ar gyfer pob cwestiwn]</p>	<p>Cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw'n glir sut byddai grant o £40,000 yn cryfhau'r cais hir yn unol ag amcanion Dinas Diwylliant? <p>Rhaglen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A oes tystiolaeth o gynllun datblygu sy'n cynnwys cymysgedd o ffynonellau codi arian? • A oes unrhyw arian neu ymrwymadau wedi eu sicrhau ar waith?
---	--

Panel cynghori arbenigol

Bydd y panel cynghori arbenigol yn cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd (Syr Phil Redmond CBE a Claire McColgan MBE), cynrychiolydd ar gyfer Gogledd Iwerddon (Lynn Best), Cymru, yr Alban a Lloegr a phum aelod arall sydd ag ystod eang ac amrywiol o brofiad ac arbenigedd yn y sector. Eleni, rydym yn cynnal proses ymgeisio agored ar gyfer yr wyth aelod o'r panel sydd eto i'w penodi, a fydd yn darparu asesiad beirniadol a gwrthrychol o'r ceisiadau ac yn gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar bob cam o'r gystadleuaeth. Bydd y panel hefyd yn ymweld â'r llyfudd llwyddiannus ar y rhestr fer yn 2022 ac yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r ddinas fuddugol.

Mae manylion y rôl a manylion ynghylch sut mae gwneud cais i fod yn aelod o'r panel ar gael yma: <https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk/appointment/ukcoc2025/>

Bywgraffiadau



Cafodd **Syr Phil Redmond (y Cadeirydd)** ei urddo'n farchog am wasanaethau i ddarlledu a'r celfyddydau yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2020. Fel sefydlydd cyfresi drama arloesol gan gynnwys Grange Hill, Brookside a Hollyoaks, mae Phil yn eiriolwr ac yn llysgennad gwych ar gyfer diwylliant a'r diwydiannau creadigol. Drwy hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant, mae'n sbarduno newid cadarnhaol ledled y wlad. Yn 2008 roedd Lerpwl yn Brifddinas Diwylliant Ewrop, a defnyddiodd Phil ei broffil uchel i feithrin cefnogaeth ar gyfer y digwyddiad blwyddyn o hyd, nid yn unig yn y ddinas ei hun, ond ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Yn aelod o Fwrdd Cwmni Diwylliant Lerpwl er 2006, daeth yn Ddirprwy Gadeirydd yn 2007 ac yn Gyfarwyddwr Creadigol hefyd. Roedd y flwyddyn yn llwyddiant ysgubol, gan ddenu dros 10 miliwn o ymwelwyr yn y chwarter cyntaf yn unig, ac roedd sefydliadau

diwylliannol fel y Tate yn cofnodi 200% o gynnydd o gymharu â niferoedd ymwelwyr 2007. Yn dilyn llwyddiant Prifddinas Diwylliant Ewrop, daeth yn Gadeirydd Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl ac ef oedd y prif unigolyn a oedd yn gyfrifol am sefydlu'r Sefydliad Cyfalaf Diwylliannol, sef menter ar y cyd rhwng Prifysgol Lerpwl a Phrifysgol John Moores Lerpwl, a gadeiriwyd ganddo hefyd.

Cafodd rhaglen Dinas Diwylliant y Deyrnas Unedig ei hysbrydoli a'i gyrru'n uniongyrchol ganddo yn ystod ei dymor fel Cyfarwyddwr Creadigol Lerpwl - Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Mae ei waith ar Ddinas Diwylliant y Deyrnas Unedig a'i holl gyfraniadau i'r sector cyhoeddus wedi bod yn gwbl wirfoddol ac mae wedi cefnogi nifer o achosion elusennol a sector cyhoeddus, gan gynnwys Prifysgol John Moores Lerpwl ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl.



Claire McColgan (Dirprwy Gadeirydd) yw Cyfarwyddwr Diwylliant Lerpwl, sy'n gyfrifol am Ddigwyddiadau Mawr, Liverpool Film Office, Cruise Liverpool, Twristiaeth, Neuaddau'r ddinas a Pholisi Diwylliannol - derbyniodd MBE am wasanaethau i'r celfyddydau yn 2009 ac roedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynhyrchu'r rhaglen gyfranogi lwyddiannus (Cymunedau Creadigol).

Mae Claire wedi arwain y rhaglen etifeddol yn Lerpwl sy'n cefnogi ac yn cyllido 35 o fudiadau diwylliannol. Mae'n aelod o Bartneriaeth Ddiwylliannol y Ddinas-ranbarth a Bwrdd yr Economi Ymwelwyr, ac mae'n gomisiynydd Canol Tref i'r Ddinas-ranbarth.

Mae Claire yn ymgynghorydd ac yn siaradwr cenedlaethol a rhyngwladol uchel ei pharch ar arferion gorau ym maes Diwylliant ac mae'n gynhyrchydd gweithredol profiadol o ddigwyddiadau sydd wedi ennill gwobrau. Ar hyn o bryd mae hi'n arwain yr adferiad yn Lerpwl sy'n cynnwys Without Walls a'r rhaglen o ddigwyddiadau peilot a gyhoeddwyd yn ddiweddar.



Lynne Best (cynrychiolydd Gogledd Iwerddon) yw Cyfarwyddwr The Fourth Pillar, cwmni a sefydlwyd i gefnogi crewyr a bod yn hyrwyddwr ar gyfer y diwydiannau creadigol. Cyn hynny, bu'n Bennaeth Cyfathrebu i'r cwmni trwyddedu cerddoriaeth, PPL, ac yn Gyfarwyddwr Well Red Music and Media, a oedd yn darparu cyfathrebiadau corfforaethol a chynghor ar bolisiau i amrywiaeth o gwmnïau cyfryngau a cherddoriaeth yn fyd-eang. Mae hi hefyd wedi bod

yn Bennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus yn BPI, corff cynrychioladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cwmnïau technoleg cerddoriaeth a labeli recordio a threfnydd Gwobrau BRIT a Gwobr Mercury. Cyn gweithio ym maes cerddoriaeth, dechreuodd ei gyrfa yn Senedd Ewrop ym Mrwsel ar ôl cwblhau ei gradd yn Strasbwrg, Ffrainc. Mae'n Is-gadeirydd Canolfan Gerdd Oh Yeah yn Belfast ac yn Gadeirydd Bwrdd Americana Music Association UK. Mae hi hefyd ar Banel Ymgynghorol y fenter iechyd meddwl ledled Iwerddon, Minding Creative Minds. Nid yw'n dal unrhyw benodiad cyhoeddus arall ac nid yw wedi ymgymryd â gweithgareddau gwleidyddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Am ragor o wybodaeth, e-bostiwch ukcityofculture2025-competition@dcms.gov.uk